Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

17 Hydref 2015

Annwyl David,

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Roeddwn wedi addo darparu enghraifft o Reoliadau drafft ynghylch mannau cyhoeddus agored, di-fwg a fyddai'n cael eu gwneud dan adran 8 o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

Felly amgaeaf Reoliadau drafft Mangreoedd Di-fwg Ychwanegol (Cymru) 2016 ("y Rheoliadau"). Mae'r Rheoliadau'n gwneud tir ysbytai a thir ysgolion (ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol) yn ddi-fwg.

Yn Rheoliad 4, fe welwch ddarpariaeth yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o bennu ardaloedd lle caniateir ysmygu a defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin, neu ddefnyddio'r dyfeisiau yn unig. Mewn ysbytai, byddai modd i reolwyr y safleoedd bennu ardaloedd o'r fath. Yn achos ysgolion , dim ond ysgolion annibynnol fyddai'n medru pennu ardaloedd o'r fath, a hynny gan i ni gael gwybod mewn ymgynghoriad anffurfiol y byddai hyn yn angenrheidiol o bosib pe bai'r eiddo'n cael ei ddefnyddio fel llety yn ystod gwyliau ysgol.

Rheoliadau drafft yw'r rhain, sy'n cael eu darparu i'r Pwyllgor er gwybodaeth i'ch helpu i ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, felly maent yn cael eu darparu yn Saesneg yn unig. Byddai unrhyw Reoliadau a gynhyrchwyd ar ôl i Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ddod i rym yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, ac yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol. Hefyd byddai angen hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd amdanynt dan ddarpariaethau'r Gyfarwyddeb Safonau Technegol, yn sgil y gofynion ynghylch arwyddion sydd yn y Rheoliadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn a'r hyn a amgeir ynddo at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,

Mark.

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services